



# Hwylusydd Prosiect

## Disgrifiad o'r tasgau a'r dyletswyddau

### Cefndir

Mae **4 Llan** yn Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a sefydlwyd yn Awst 2024 i wasanaethu cymunedau Llanarth, Llanllwchaearn, Llandysiliogogo, Llangrannog a'r cyffiniau yng nghanolbarth Ceredigion.

Sefydlwyd **4 Llan** mewn ymateb i'r argyfwng tai lleol, gyda'r bwriad o ymrymuso cymunedau gwledig yr ardal i ganfod atebion adeiladol i'r heriau economaidd a chymdeithasol sy'n eu hwynebu.

Yn benodol, bwriad **4 Llan** yw:

- hwyluso cynhyrchu ynni adnewyddadwy,
- gwella mynediad pobl leol at dai fforddiadwy,
- datblygu gwasanaethau a gweithgareddau a arweinir gan y gymuned,
- grymuso cymunedau lleol a hybu gwytnwch cymdeithasol, yn benodol, mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Gymraeg.

Mae **4 Llan** yn gweld bod perthynas gyd-ddibynnol rhwng polisiâu defnydd tir, y farchnad dai, polisiâu sy'n hyrwyddo cynhyrchu ynni a'i gadwraeth, hyfywedd economaidd, hyfywedd ieithyddol a diwylliannol, yn ogystal â chynaliadwyedd amgylcheddol ehangach. Disgwylir i'r hwylusydd weithredu yn unol â'r weledigaeth honno.

Cofrestrwyd **YTC 4 Llan** gyda'r Awdurdod Arferion Ariannol (*Financial Conduct Authority*) fel Cymdeithas er Budd y Gymuned (*Community Benefit Society*). Mae rheolaeth y gymdeithas yn nwylo ei aelodau ac fe'i arweinir gan Fwrdd etholedig.

Yn Gymdeithas gwbl newydd, mae 4 Llan yn awyddus i gytundebu gydag unigolyn brwd a phrofiadol er mwyn hwyluso sefydlu a datblygu'r gymdeithas a'i gosod ar seiliau cadarn er mwyn ymgynhyrchu at ei nod a'i llawn potensial.

## Amcan y Gwaith

Amcan y gwaith fydd cynorthwyo aelodau Bwrdd 4 Llan i wireddu'r gweithgareddau a'r datblygiadau canlynol:

- codi ymwybyddiaeth o nod, amcanion a bwriadau 4 Llan o fewn y cymunedau lleol,
- arwain gweithgareddau 4 Llan mewn perthynas â materion ynni lleol, yn enwedig nodi cyfleoedd newydd ar gyfer arbed ynni a chynhyrchu,
- nodi cyfleoedd i grwpiau cymunedol lleol weithio'n gydweithredol er mwyn lleihau'r carbon mwyaf a/neu gynhyrchu ynni gwyrdd,
- darparu cyngor a gwybodaeth i drigolion a grwpiau lleol ar ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a chyfleoedd datblygu economi leol cysylltiedig,
- rhwydweithio â sefydliadau a grwpiau ym meysydd ynni adnewyddadwy, tai a datblygu cymunedol i nodi a datblygu cyfleoedd a fydd yn hyrwyddo amcanion y Gymdeithas,
- adeiladu ar yr ymchwil seilwaith a gomisiynwyd yn 2024, gan ymchwilio ymhellach i agweddau ar y sefyllfa economaidd-gymdeithasol leol, ynghyd â
- nodi ffynonellau cyllid pwrpasol a chynorthwyo'r Bwrdd i baratoi ceisiadau addas. Rhoddir pwyslais arbennig ar ddatblygu ffynonellau refeniw lleol parhaus a ariennir trwy gynhyrchu ynni.

Ar ddiwedd y cyfnod peilot, y nod yw datblygu cynllun strategol a chynllun gwaith llawn ac uchelgeisiol ar gyfer y Gymdeithas ar gyfer y 5 mlynedd ariannol rhwng 2026-2031.

## Nodweddion y person

Yng nghyswllt y swyddogaeth hon, bydd y nodweddion personol canlynol **yn ddymunol**:

### Sgiliau a galluoedd

- sgiliau gweinyddol trefnus ac effeithlon,
- sgiliau digidol da,
- y gallu i droi amcanion strategol yn weithgareddau a thasgau ymarferol,
- y gallu i weithio'n effeithiol mewn meysydd dieithr a dysgu gwersi wrth wneud,
- sgiliau rhyngweithio proffesiynol effeithiol,
- y gallu i weithio'n effeithiol mewn Cymraeg a Saesneg.

### Gwybodaeth a dealltwriaeth

- dealltwriaeth cyffredinol o'r heriau economaidd a chymdeithasol sy'n wynebu cymunedau yn y Gymru wledig,
- dealltwriaeth o hanfodion datblygu cymunedol ac economaidd,
- dealltwriaeth fras o'r maes ynni adnewyddadwy, tai a/neu datblygu cymunedol.

## Nodweddion personol

- creadigrwydd a threfnusrwydd,
- y gallu i weithio'n annibynnol, blaenoriaethu gwaith a rheoli amser,
- sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i weithio mewn tîm,
- Dealltwriaeth o egwyddorion cydraddoldeb mewn perthynas ag eraill ac ymrwymiad iddynt.

## **Amodau a chydabyddiaeth**

Lleoliad:	Gweithio o adref.
Telerau:	Cytundebir ar delerau hunangyflogedig ar gyfer cyfwerth ag 50 diwrnod o waith dros gyfnod o 12 mis.
Adnoddau:	Disgwylir y bydd yr Hwylusydd yn darparu ei offer gweinyddol ei hun, e.e. gliniadur ac offer swyddfa. Cydnabyddir unrhyw dreuliau penodol fydd ynghlwm â'r gwaith.
Cydnabyddiaeth:	Telir cyfradd o £187.50 y dydd (diwrnod gwaith = 7.5 awr) hyd at uchafswm o 50 diwrnod. Telir treuliau teithio o 45cyf.
Atebol i:	Aelodau Bwrdd YTC 4 Llan drwy'r Cadeirydd.
Cyswllt:	Gareth Ioan, Ysgrifennydd YTC 4 Llan, 07966 936297      gareth.ioan1@gmail.com
Ymgeisio:	Llythyr cais yn cynnwys amlinelliad o weledigaeth a drafft o gynllun gwaith posibl ynghyd â CV.
Dyddiad cau:	10.00yb, Dydd Gwener, 13 Rhagfyr 2024.

Asedau Segur  
**Camau Cynaliadwy Cymru**

Dormant Assets  
**Sustainable Steps Wales**

Ddarperir gan

**CRONFA GYMUNEDOL  
LOTERI GENEDLAETHOL**

Delivered by

**THE NATIONAL LOTTERY  
COMMUNITY FUND**



# Project Facilitator

## Description of tasks and duties

### Background

4 Llan **is** a Community Land Trust established in August 2024 to serve the communities of Llanarth, Llanllwchaearn, Llandysiliogogo, Llangrannog and the surrounding areas in mid Ceredigion.

4 Llan **was established** in response to the local housing crisis, with the aim of empowering the area's rural communities to find constructive solutions to the economic and social challenges which they face.

Specifically, **4 Llan** aims to:

- facilitate renewable energy generation locally,
- improve local people's access to affordable housing,
- develop community-led services and activities,
- empower local communities and promote social resilience, in particular, in relation to the Welsh language and Welsh culture.

**4 Llan** takes the view that there is an interdependent relationship between land use policies, the housing market, policies that promote energy production and conservation, local economic viability, linguistic and cultural viability, and wider environmental sustainability issues. The facilitator is expected to act in accordance with that vision.

YTC 4 Llan **was registered** with the Financial Conduct Authority as a Community Benefit Society. The management of the association rests with its members and it is led by an elected Board.

As an entirely new CLT, 4 Llan is keen to contract a keen and experienced individual to facilitate the establishment and development of the association and to place it on solid foundations in pursuit of its aims and in fulfilment of its full potential.

## Objective of Work

The post's function will be to assist members of the 4 Llan Board to realise the following activities and developments:

- raising awareness of the aim, objectives and intentions of 4 Llan within the local communities,
- leading 4 Llan activities in relation to local energy issues, particularly identifying new opportunities for energy conservation and generation,
- identify opportunities for local community groups to work collaboratively to reduce carbon use and/or produce green energy,
- providing advice and information to local residents and groups on renewable energy, energy efficiency and related local economic development opportunities,
- network with organisations and groups in the areas of renewable energy, housing and community development to identify and develop opportunities that will further the association's objectives,
- building on the knowledge base research commissioned in 2024, further investigating aspects of the local socio-economic situation, along with
- identifying relevant sources of funding and assisting the Board in preparing suitable applications. Particular emphasis will be placed on developing ongoing local revenue sources funded through energy generation.

At the end of the pilot phase, the aim is to develop a full and ambitious strategic and operational plan for 4 Llan for the 5 financial years between 2026-2031.

## Person specification

In relation to this function, the following personal characteristics will **be desirable**:

### Skills and abilities

- methodical and efficient administrative skills,
- good digital skills,
- ability to translate strategic objectives into practical activities and tasks,
- ability to work effectively in unfamiliar fields and learn lessons in practice,
- effective professional interaction skills,
- ability to work effectively in both Welsh and English.

### Knowledge and understanding

- a general understanding of the economic and social challenges facing communities in rural Wales,
- a basic understanding of community and economic development,
- a broad understanding of issues around renewable energy, housing and/or community development.

## Personal characteristics

- creativity and organisation,
- ability to work independently, prioritise work and manage time,
- good communication skills and the ability to work in a team,
- an understanding of and commitment to the principles of equality in relation to others.

## **Conditions and acknowledgment**

Location:	Home working.
Terms:	Self-employed terms will be agreed for the equivalent of 50 days of work over a period of 12 months.
Resources:	It is expected that the Project Facilitator will provide his/her own administrative equipment, e.g. laptop and office hardware. Any specific expenses associated with the work will be recognised.
Remuneration:	A rate of £187.50 per day (working day = 7.5 hours) will be paid up to a maximum of 50 days. Travel expenses remunerated at 45ppm.
Accountable to:	4 Llan CLT Board Members through the Chair.
Contact:	Gareth Ioan, Secretary of YTC 4 Llan CLT, 07966 936297      gareth.ioan1@gmail.com
How to apply:	Application letter containing an outline of the applicant's vision for the role and a draft possible work plan, along with CV.
Closing date:	10.00am, Friday, 13 December 2024.

Asedau Segur  
**Camau Cynaliadwy Cymru**

Dormant Assets  
**Sustainable Steps Wales**

Ddarperir gan

**CRONFA GYMUNEDOL  
LOTERI GENEDLAETHOL**

Delivered by

**THE NATIONAL LOTTERY  
COMMUNITY FUND**